Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Dyletswydd Trais Difrifol: Canllawiau Statudol Drafft

Yn cau 21 Mehefin 2022

## Cwestiynau

**C1. A yw'r canllawiau statudol drafft yn gwella eich dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Dyletswydd Trais Difrifol?**

Ydy

Mae'r canllawiau'n egluro'r Ddyletswydd Trais Difrifol a'r sefydliadau sector cyhoeddus a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth.

**C2. A oes unrhyw agweddau penodol ar y Ddyletswydd Trais Difrifol sy'n parhau i fod yn aneglur (neu sydd ar goll) ar ôl darllen y Canllawiau Statudol drafft? Os oes, allwch chi roi manylion os gwelwch yn dda?**

Oes

Mae'r diffiniad o'r hyn yw ardal 'leol' yn aneglur a bydd hyn yn arwain at anghysondeb o ran gweithredu'r ddyletswydd ar draws Cymru a Lloegr. Yn bron pob achos byddai'n fwy priodol i'r ddyletswydd trais difrifol gael ei gweithredu ar lefel Cynghorau lleol, gan ganiatáu i bartneriaid allu cyflawni eu cyfrifoldebau, sydd yn arbennig o bwysig i sicrhau nad yw ardaloedd gwledig yn cael eu taflu i'r cysgod gan ardaloedd dinesig mawr. Er fe allai caniatáu'r hyblygrwydd alluogi'r ardaloedd Cyngor hynny sydd â phroblemau tebyg i gyfuno adnoddau a darparu un asesiad. Dylid ystyried y Ddyletswydd Trais Difrifol ar ffurf strategol a gweithredol ochr yn ochr â gwybodaeth ar dueddiadau sy'n datblygu.

Yng Nghymru, rydym yn canolbwyntio ar atal ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, felly rydym yn cytuno mai un ffordd allweddol i atal trais difrifol yw mynd i'r afael â thrais llai difrifol hefyd er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu. Dylai bod atal pob math o drais yn gymhelliant, oherwydd bod y llinell rhwng trais a thrais difrifol yn aneglur. Ni chaiff hyn ei gydnabod o fewn y canllawiau.

Paragraff 169. Mae rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn aneglur ac fe allai achosi dryswch a pheri niwed i'r asesiad os ydynt, fel y soniwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu, yn cael pwerau i benderfynu pwy sy'n cymryd rhan a'r cyllid heb ddealltwriaeth lawn o sut mae partneriaid eraill wedi eu sefydlu, gan roi pwerau ac adnoddau iddynt heb iddynt fod yn destun i'r ddyletswydd.

Mae yna hefyd y mater o ariannu darpariaeth y Canllawiau, ar gyfer yr ardaloedd hynny ag Unedau Lleihau Trais (Unedau Atal Trais yng Nghymru) yna bydd pethau yn cael eu darparu drwy systemau wedi'u sefydlu a chyda cefnogaeth

ddadansoddol. Ar gyfer yr ardaloedd hynny y tu allan i'r Unedau Lleihau Trais nid oes cymorth a chefnogaeth o'r fath ar gael, cafwyd awgrym y bydd cyllid i gynorthwyo â darpariaeth ac, er tegwch, dylid sicrhau ei fod ar lefel debyg i'r Unedau Lleihau Trais i ddarparu'r darn allweddol hwn o waith i'r un safon a lefel gyson. Mae Dadansoddwyr yr Heddlu yng Nghymru yn nodi eu bod eisoes yn gweithio i'r eithaf ac nid oes gan lawer o Gynghorau ddadansoddwyr bellach yn dilyn tynnu'r cyllid diogelwch cymunedol yn ei ôl, felly heb y cyllid ychwanegol hwnnw, efallai na fydd safon yr asesiadau ac felly yr ymateb gystal mewn rhai ardaloedd sy'n gorfod cyflawni hyn yn defnyddio adnoddau presennol sydd eisoes yn brin.

Nid pawb sy'n profi trais sy'n rhoi gwybod i'r Heddlu, gall hyn fod am sawl rheswm, ond mae tystiolaeth bod y data gorau ar drais yn cael ei gadw o fewn Iechyd, mae eithrio data iechyd yn golygu y bydd gwybodaeth allweddol ar goll o'r asesiadau o anghenion, sy'n lleihau defnyddioldeb yr hyn sy'n cael ei gynhyrchu.

Nid yw Trais Difrifol yn fater ar wahân i ddiogelwch cymunedol, felly mae'n rhaid iddo gystadlu'n lleol am adnoddau yn erbyn dyletswyddau allweddol eraill megis Prevent a dyletswyddau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Ddiogelu, ond eto mae'n cael ei osod ar wahân yn hytrach na'i gynnwys yn yr Asesiadau ehangach sy'n ofynnol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Nid oes unrhyw wybodaeth ynglŷn â sut y bydd yr asesiad o anghenion trais difrifol yn eistedd ochr yn ochr neu'n bwydo i mewn i'r asesiad ehangach, os yw ar ei ben ei hun, y peryg yw y bydd yn cael ei ystyried ar wahân ac nid fel rhan o'r sgwrs ehangach ar ddiogelwch cymunedol sy'n galluogi dirprwyo a dyrannu adnoddau'n briodol.

Mae gan Gymru gymhlethdodau ychwanegol yn ymwneud â meysydd gwaith a phartneriaid datganoledig a heb eu datganoli, ac mae diogelwch cymunedol yn rhan fawr o'r gofod hwn. Er bod ein partneriaethau yn un o'n cryfderau, rhaid sicrhau bod yr angen am gydweithio cyson a'r ffocws ar faterion perthnasol yn aros yn gryf. Mae'r ffaith fod y canllawiau'n caniatáu ar gyfer gweithrediad drwy'r strwythurau presennol yn galonogol, ond mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda'i gilydd oherwydd bod gwahanol ddeddfwriaethau yn croesi â'r ddyletswydd trais difrifol.

**C3. Rydym yn awyddus i gynnwys astudiaethau achos wedi'u diweddaru i gefnogi'r canllawiau statudol ac i gefnogi dysgu parhaus ar drais difrifol. Os ydych yn gallu darparu astudiaeth achos, rhowch fanylion byr isod, gan gynnwys eich manylion cyswllt.**

Mae partneriaid yng Nghymru wedi cyflwyno'n uniongyrchol.

**C4. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r awgrymiadau canlynol am gefnogaeth i ardaloedd lleol ar y Ddyletswydd?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuni nac yn anghytuno | Anghytuno | Angyhtuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Seminarau cenedlaethol** | | **x** | | | |
| **Cymorth cyfoedion gan arbenigwyr gweithredol** | | **x** | | | |
| **Hwyluswyr Cenedlaethol** | | | **x** | | |
| **Cefnogaeth ymgynghori lleol** | | **x** | | | |
| **Arall (nodwch os gwelwch yn dda)** | **x** | | | | |

**Arall**

Defnyddio'r strwythurau a'r Rhwydweithiau presennol sy'n weithredol yng Nghymru, yn benodol Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru (WDAIIN), Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru a Chymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WASCO).

**C5.I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r awgrymiadau canlynol am ble mae angen cefnogaeth i ardaloedd lleol ar y Ddyletswydd?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhannu data a gwybodaeth** | **X** yn enwedig yn cynnws data iechyd | | | | |
| **Asesiadau Strategol o Anghenion** | | **x** | | | |
| **Gwaith aml-asiantaeth** | | | **X** yn gweithio yn dda yng Nghymru | | |
| **Diffinio Trais Difrifol** | | **X** Bydd diffiniad | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymru cyfan effallai yn fwy | | | |
| **Arall (nodwch os gwelwch yn dda)** | **x** | | | | |

**Arall:** Cysylltu'r data a'r dogfennau ar drais difrifol gyda diogelwch cymunedol ehangach a gofynion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, bydd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn edrych ar hyn yng Nghymru gan weithio ar draws yr holl bartneriaid yng Nghymru.

Mae partneriaid wedi gofyn i'r Rhwydwaith weithredu fel hysbysfwrdd ar gyfer rhannu problemau a datrysiadau a galw cyfarfodydd i ddatrys problemau.